Gofal Cymdeithasol,
Iechyd a Thai

Asesiadau Gofal Cymdeithasol a Chynlluniau Gofal

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

Os oes angen yr wybodaeth hon arnoch mewn print bras, Braille neu ar dâp sain

☎ 01267 228925

Gelli dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau a gyngir gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar wefan y Cyngor: www.sirgar.gov.uk

SCH10/29/07/b

Yn y daflen hon fe gewch hyd i wybodaeth holl bwysig am y canlynol:

- Beth yw Gofal Cymdeithasol
- Cael Cymorth trwy Asesiad Gofal Cymdeithasol
- Pwy sy'n rhan o'r asesiad?
- Cytuno ar Gynllun Gofal
- Pa wasanaethau allaf i eu derbyn?
- A fydd yn rhaid i mi dalu am y gwasanaethau?
- Beth allaf ei wneud os oes rhywbeth yn mynd o'i le?
- Sut y gallaf apelio?
- O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Beth yw Gofal Cymdeithasol?

Mae angen cymorth neu ofal ar nifer o bobl boed hynny oherwydd eu hoed, oherwydd anabledd neu oherwydd gwendid. Mae'n well gan y rhan fwyaf aros yn eu cartrefi eu hunain on mae angen cymorth ar lawer i wneud hynny. Bwriad **Gofal Cymdeithasol** yw cynnig ystod o wasanaethau i bobl er mwyn rhoi cymorth iddynt hwy a'u gofalwyr yn eu dymunaid i aros yn eu cartref. Os oes angen hynny, rhoddir cymorth hefyd i symud i gartref preswyl neu nyrsio.

Pwy sydd yn gymwys?

Mae pobl o'r grwpiau canlynol yn gymwys i gael asesiad o'u hanghenion ac i dderbyn gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny:

- Pobl Hŷn ag anghenion o ran gofal;
- Pobl ag anableddau corfforol;
- Pobl ag anableddau dysgu;
- Pobl â nam ar eu synhwyrau;
- Pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau;
- Pobl y mae angen cymorth arnynt i'w galluogi i barhau i ofalu am eraill.

D.S. **Fel unrhyw sefydliad arall mae'n rhaid i ni weithio o fewn yr adnoddau sydd gennym felly mae'n bwysig bod gwasanaethau'n cael eu canolbwyntio ar y rheiny sydd â'r agen mwyaf. I ddarganfod sut yr ydym yn ceisio sicrhau bod ynny'n digwydd darllenwch y daflen " A wyf yn gymwys i dderbyn y gwasanaethau neu gymorth?" (Sut i gael Gwasanaethau Gofal yn Sir Gaerfyrddin).**

Cael Cymorth trwy Asesiad Gofal Cymdeithasol

Os oes angen cymorth arnoch i aros yn y gymuned neu i symud i gartref preswyl neu nyrsio, gallwch chi neu'r sawl sy'n gofalu amdanoch gysylltu â'r Adran Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai. Gallwch hefyd ofyn i rywun yr ydych yn ymddiried ynddynt i wneud hyn ar eich rhan, eich Meddyg Teulu er enghraifft. Wedi hynny, bydd Rheolwr Gofal neu Weithiwr Cymdeithasol yn trefnu ymweld â chi er mwyn trafod eich anghenion, ac os oes angen, anghenion y sawl sy'n gofalu amdanoch, er mwyn darganfod y ffordd orau o ddiwallu'r anghenion hynny. Yr enw ar hyn yw **Asesiad Gofal Cymdeithasol** a gall ddigwydd yn eich cartref neu mewn ysbyty cyn i chi gael eich rhyddhau (gellir defnyddio lleoliadau eraill hefyd yn ôl yr angen). Fel rheol, mae'r meysydd i'w trafod yn cynnwys:-

- Eich safbwyntiau a'ch teimladau chi ynghylch sut a ble yr ydych yn dymuno byw.
- Cyflwr eich iechyd.
- Eich gallu i fyw'n annibynnol yn eich cartref a'ch angen am gymorth.
- Yr angen i gael lle dros dro neu yn y tymor hir mewn lleoliad arall gan gynnwys tai lloches, cartref preswyl neu nyrsio.
- Anghenion y sawl sy'n gofalu amdanoch.
- Y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch er mwyn diwallu'r anghenion a nodwyd.

Pwy arall fydd yn cymryd rhan yn yr asesiad?

Gall perthynas agos, cyfaill neu ofalwr gymryd rhan yn yr asesiad hwn a gallant hefyd ofyn am asesiad annibynnol o'u hanghenion eu hunain os ydynt yn gofalu amdanoch.

Os ydych yn sâl neu'n anabl, mae'n bosibl y bydd y Cydgysylltydd Gofal am ofyn i'ch meddyg, nyrs ardal neu weithwyr arbenigol eraill i fod yn rhan o'ch asesiad. Gall hyn ddigwydd pan fyddwch gartref, ac yn enwedig os ydych yn cael eich rhyddhau o ysbyty ac mae angen gofal parhaus arnoch.

Cytuno ar Gynllun Gofal

Bydd y Cydgysylltydd Gofal neu'r Gweithiwr Cymdeithasol yn trafod y gwahanol opsiynau sydd ar gael i chi ac yn gwneud trefniadau i gael y cymorth sydd ei angen arnoch ac yr ydych yn dymuno ei dderbyn.

Bydd ef/hi yn trefnu bod **cynllun gofal** yn cael ei ysgrifennu sy'n nodi math a lefel y gofal y gallwch ei ddisgwyl. Bydd hwn yn cael ei adolygu o dro i dro wrth i'ch anghenion newid. Byddwch yn derbyn copi o'ch cynllun gofal chi. (Mae'r cynlluniau hyn hefyd yn cael eu galw'n "ddatganiad o anghenion").

Pa wasanaethau allaf i eu derbyn?

Mae gan **Cydgysylltydd Gofal a Gweithwyr Cymdeithasol** fynediad i ystod eang o wybodaeth a gwasanaethau, a allai fod yn briodol ar gyfer defnyddwyr unigol. Mae anghenion pawb yn wahanol ac felly rydym yn anelu at weithio gyda phob person er mwyn paratoi pecyn gofal sydd wedi'i lunio yn arbennig ar eu cyfer.

Gall **Gofal Cartref** ddarparu cymorth gyda thasgau nad ydych yn medru ymdopi â nhw neu yr ydych yn cael anhawster i'w gwneud ar eich pen eich hun.

Mae **Pryd ar Glud/Cynllun Prydau wedi'u Rhewi** yn ceisio darparu pryd o fwyd blasus, llawn maeth ar amser priodol ac am bris rhesymol.

Mae modd cael **addasiadau i'ch cartref** (e.e. esgynfa) **a chymhorthion** (e.e. cymhorthion ymolchi) i wneud pethau'n haws i chi. Mae'r angen am y rhain yn cael ei asesu gan Therapyddion Galwedigaethol Cymunedol a gyflogir gan yr Adran Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai.

Gall **Clybiau Dydd a Chlybiau Cinio** ddarparu cymorth, cwmni, prydau bwyd ac o bosibl, cyfle i ddatblygu diddordebau newydd.

Mae modd trefnu **Gofal Seibiant**. Er enghraifft, mae'n bosibl y byddwch yn gallu treulio wythnos mewn cartref preswyl er mwyn i'r person sy'n gofalu amdanoch fynd ar wyliau.

Dyma rai enghreifftiau, mae'r cymorth sydd ar gael i chi yn dibynnu ar eich anghenion.

A fydd yn rhaid i mi dalu?

Ni chodir unrhyw dâl am Asesiad Gofal Cymdeithasol nac am ymweliadau gan staff y Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, codir tâl am rai gwasanaethau. Bydd eich cyfraniad chi tuag at y gost yn dibynnu ar lefel y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch. Bydd y Cydgysylltydd Gofal neu Weithiwr Cymdeithasol yn barod i'ch cynghori ynghylch taliadau o'r fath.

Sut y gallaf apelio?

Yn ystod yr asesiad, nodir eich anghenion a gwneir penderfyniad ynghylch y ffordd orau i ddiwallu'r anghenion hynny. Weithiau, nid darparu gwasanaeth yw'r dewis gorau gan fod llawer o ddewisiadau ar gael i'ch helpu. Os ydych chi'n anfodlon ar y penderfyniad hwn, mae cyfle ichi apelio. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch y mater hwn i'w chael yn y daflen "Ydw i'n Gymwys i Gael Gwasanaethau a Chymorth?" (Cyrchu Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin).

Beth allaf ei wneud os oes rhywbeth yn mynd o'i le?

Os ydych yn anfodlon ynghylch rhai o'n gwasanaethau neu'r modd yr ydych wedi cael eich trin, mae hawl gennych i gwyno. Os ydych yn dymuno, gallwch gael rhywun gyda chi i siarad ar eich rhan neu eich cefnogi.

Mae manylion pellach ynghylch sut i ddefnyddio gweithdrefn gwyno'r adran ar gael yn y daflen *"*Ydych chi'n fodlon â'n gwasanaethau*"* neu drwy gysylltu â'r Swyddfa Cwynion ym Mhencadlys yr Adran,
3 Heol Spilman, Caerfyrddin, Ffôn 01267 228835.

O ble gallaf gael mwy o wybodaeth?

Cyngor cyffredinol yn unig a geir yn y daflen hon. Os oes angen cyngor arnoch ynghylch eich anghenion unigol mae croeso i chi gysylltu â'r swyddfa Gwasanaethau Cymdeithasol agosaf atoch neu'r un mwyaf priodol. Mae cyfeiriadau'r swyddfeydd wedi eu nodi ar y tudalennau sy'n dilyn:

Gwasanaethau i bobl hŷn ac oedolion ag anawsterau

Tîm Caerfyrddin, Mangre Gwalia, Caerfyrddin
☎ 01267 224421

Tîm Llanelli, 3 Rhodfa'r Goron, Llanelli
☎ 01554 779621

Tîm Dinefwr, Swyddfeydd y Cyngor, Heol Cligant, Llandeilo
☎ 01558 825371

Tîm Ysbyty Caerfyrddin, Ysbyty Cyffredinol Gorllewin Cymru, Glangwili, Caerfyrddin
☎ 01267 227562

Tîm Ysbyty Llanelli, Ysbyty Tywysog Phillip, Bryngwyn Mawr, Dafen, Llanelli
☎ 01554 75656

Gwasanaethau ar gyfer pobl â salwch meddwl:

Tîm Caerfyrddin, Canolfan Adnoddau Parcyffynnon,
22 Parcyffynnon, Caerfyrddin
☎ 01267 236017

Tîm Dinefwr, Swn y Gwynt, Lon Tir-y-dail, Rhydaman
☎ 01269 595473

Tîm Llanelli, Clinig Brynmair, 13 Heol Goring, Llanelli
☎ 01554 775299

Tîm Llangadog, Yr Hen Laethdy, Heol yr Orsaf, Llangadog
☎ 01550 777771

Gwasanaethau ar gyfer pobl ag anableddau dysgu:

Tîm TCAD Caerfyrddin, 1 Penlan, Heol Penlan, Caerfyrddin
☎ 01267 236899

Tîm TCAD Llanelli, 12 Bay View, Heol Y Capel, Llanelli,
☎ 01554 775916

Tîm Camddefnyddio Sylweddau (Trwy'r Sir)

Tîm Cyffuriau Cymunedol, 3 Rhodfa'r Goron, Llanelli
☎ 01554 779649